



Ein cyf/Our ref MA-P/VG/5725/19

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

9 Rhagfyr 2019

Annwyl Lynne,

Rhaglen estynedig Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc y GIG

Yn fy llythyr i'r Pwyllgor ar 22 Hydref 2019, amlinellais y cynigion drafft ar gyfer estyniad i'r Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc a chadarnhau'r estyniad hwn 'mewn egwyddor'. Yn awr, rwy'n ysgrifennu i roi rhagor o fanylion i'r Pwyllgor am y rhaglen estynedig, a'r penderfyniad terfynol yr wyf wedi'i wneud.

Rwyf wedi cytuno i ganiatáu estyniad i'r Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc tan fis Mawrth 2021. Ond rwyf hefyd wedi cynnwys darpariaeth i roi estyniad hyd at fis Mawrth 2022, ar yr amod bod y Llywodraeth newydd yn cytuno. Mae'r llythyr hwn yn rhoi amlinelliad i'r Pwyllgor o'r meysydd yr wyf am i'r rhaglen ganolbwyntio arnynt tan 2021/22.

Mae cyfraniadau Grŵp Cyfeirio Arbenigol Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc a'r Bwrdd Rhaglen ehangach wedi bod yn werthfawr iawn wrth roi tystiolaeth a chyfarwyddyd o ran pa bethau y mae angen i'r GIG a'r partneriaethau trawslywodraethol barhau i ganolbwyntio arnynt i sicrhau gwell darpariaeth gwasanaeth/cymorth ar gyfer iechyd meddwl ac emosiynol plant a phobl ifanc.

Mae'r rhaglen waith amlinellol yr wyf wedi cytuno arni yn cynnwys:

- Darparu fframwaith sy'n disgrifio'r **cymorth cynnar a gwell cefnogaeth** a fydd ar gael ym mhob rhan o Gymru. Bydd y fframwaith yn gwella cadernid a dulliau cymorth fel rhan o ddull system gyfan ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Bydd hefyd yn ceisio disgrifio'r cysylltiadau â chynlluniau a gwasanaethau drwy waith gydag ysgolion a gwasanaethau iechyd meddwl mwy arbenigol mewn gofal sylfaenol ac eilaidd. Bydd hyn yn cynnwys gwaith agos rhwng Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc a Rhwydwaith CAMHS y GIG, ochr yn ochr â'r Tîm Dull Ysgol Gyfan a'r Tîm Gwella Canlyniadau Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru.
- Gweithio gyda phartneriaid ehangach drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu **cymorth cynnar a gwell fframwaith cymorth ac yna cefnogi ei fabwysiadu ar lefel bwrdd partneriaeth rhanbarthol**. Bydd y gwaith hwn yn cyd-fynd â chyfeiriad y gwaith yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru o ran y rôl

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

strategol y dylai'r Byrddau Partneriaeth rhanbarthol ei chwarae yn y dyfodol gyda'r agenda amlasiantaethol bwysig hon. Bydd y ffrwd waith Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn cynnwys adnabod modelau a dulliau y gellir eu gweithredu ledled Cymru drwy hwyluso rhannu arferion da a dysg o brosiectau a gefnogwyd gan y Gronfa Trawsnewid.

- Cefnogi datblygu **dull system gyfan ar gyfer plant a phobl ifanc â chyflyrau niwroddatblygiadol**. Bydd y ffrwd waith hon yn datblygu gweledigaeth a pholisïau i'r dyfodol ar gyfer gwasanaethau cymorth niwroddatblygiadol yng Nghymru. Mae hyn yn allweddol i lywio'r gwaith i sicrhau y gellir bodloni anghenion pob plentyn (boed o fewn neu o dan y trothwy presennol ar gyfer gwasanaethau arbenigol). Gwneir hyn drwy weithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a chysylltu â gweithrediad Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol 2018.

Bydd y rhaglen estynedig hefyd yn parhau i weithio'n agos gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru os oes angen, i ystyried goblygiadau'r tair ffrwd waith ar y gweithlu.

Bydd y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn gofyn am Fwrdd Rhaglen ffurfiol a bydd y ddwy ffrwd waith newydd sy'n canolbwyntio ar gymorth cynnar a gwell cefnogaeth yn rhoi diweddariad i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar Ddull Ysgol Gyfan a Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar Ganlyniadau i Blant. Bydd y trefniant hwn yn parhau i gryfhau'r cysylltiadau gyda pholisi Llywodraeth Cymru gan roi tryloywder a gwelededd i ddatblygiad y gwelliannau ar gyfer rhanddeiliaid.

Bydd y drydedd ffrwd waith sy'n canolbwyntio ar ddarpariaeth Niwroddatblygiadol yn adrodd i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar Ddull Ysgol Gyfan. Bydd hyn yn sicrhau trosolwg traws sector gan grŵp ar lefel Weinidogol sy'n cynnwys iechyd, addysg, awdurdod lleol a rhanddeiliaid ehangach.

I sicrhau meithrin cysylltiadau cryf ar draws y system gyfan, a chefnogi'r trosolwg strategol sy'n ofynnol, bydd Cadeirydd Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn parhau i fod yn aelod o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar Ddull Ysgol Gyfan. Hefyd, mae Cyfarwyddwr y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl yn GIG Cymru wedi'i gynnwys fel aelod newydd o Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar Ganlyniadau i Blant.

Byddaf yn parhau i adolygu'r trefniadau llywodraethu arfaethedig wrth i waith y rhaglen fynd rhagddo, yn enwedig ar ôl creu swyddogaeth Weithredol y GIG er mwyn sicrhau bod trefniadau yn parhau i fod yn addas at y diben, a sicrhau eu bod y cyfrwng mwyaf priodol ar gyfer rhoi trosolwg.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor y bydd y gwaith gwerthfawr sydd eisoes wedi'i wneud dan y rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn parhau, ac y bydd yn ei dro yn gwneud gwahaniaeth i bobl ifanc ledled Cymru.

Yn gywir,



Vaughan Gething AC/AM

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services